



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk



Bioddiogelwch

Amddiffyn eich anifeiliaid...
amddiffyn eich busnes



Mae bioddiogelwch yn golygu gwybod sut i reoli neu atal clefydau heintus rhag lledaenu.

Bydd cymryd camau ymarferol yn gallu'ch helpu hefyd i rwystro clefydau rhag taro'ch fferm.

Manteision mesurau bioddiogelwch da ar eich fferm

- Yn helpu i gadw'ch anifeiliaid yn iach ac yn eich amddiffyn rhag clefydau a'r effeithiau ariannol cysylltiedig
- Yn ei gwneud yn bosib osgoi llawer o glefydau heintus.
- Yn gallu lleihau'r perygl o ledaenu clefydau sy'n effeithio ar bobl.
- Yn ei gwneud hi'n haws rheoli a dileu clefydau.
- Yn lleihau'r angen am ffisig i drin ac atal clefydau.
- Gallwch wneud eich fferm yn fwy effeithlon a gall eich helpu i amddiffyn ffermydd eich cymdogion a chefn gwlad.

Beth sy'n achosi clefydau?

- Dod ag anifail heintiedig i'r fferm e.e. anifail wedi'i brynu neu dod ag anifail yn ôl i'r fferm.
- Mae llygod, bywyd gwylt ac adar yn gallu heintio bwyd, cafnau dŵr a storfeydd bwyd.
- Mae symudiadau pobl a rhannu offer, cerbydau a pheiriannau rhwng ffermydd ac o fewn ffermydd yn gallu lledaenu clefydau.
- Gall afonydd a nentydd gael eu heintio gan dail neu ddŵr stoc sy'n yfed ynddynt a chan slyri/dŵr gwastraff yn llifo oddi ar gaeau cyfagos.
- Mae anifeiliaid sydd o dan straen oherwydd diffyg maeth, diffyg cysgod da ac amodau andwyol yn fwy tebygol o ddal clefydau. Mae'n bosibl hefyd y gall clefydau sydd 'yng nghwsg' ailymddangos.



- Symud anifeiliaid o fferm i fferm ac o fewn ffermydd. Er enghraifft, cymysgu grwpiau gwahanol o loi ar ôl eu diddyfnu.

Pethau pwysig i'w cofio

- Ceisiwch gynnal polisi buches/diadell gaeedig. Os oes yn rhaid prynu stoc cyfnewid, holwch am eu statws iechyd cyn eu symud, ac ynyswch nhw wedi iddyn nhw gyrraedd eich fferm.
- Archwiliwch statws iechyd eich buches/diadell yn rheolaidd a datblygu cynllun iechyd effeithiol gyda'ch milfeddyg.
- Peidiwch â dod â haint i'ch fferm a'i ledaenu o gwmpas y fferm ar eich dillad, esgidiau a'ch dwylo. Gwisgwch ddillad ac esgidiau y gallwch eu glanhau a'u diheintio.
- Rheolwch pwy sy'n cael mynd ble ar eich fferm ac anfonwch ymwelwyr at fannau penodol diogel.
- Gofalwch fod gennych olchwr dan bwysedd, brwsys, pibau dŵr, dŵr a diheintydd ar gael i'w defnyddio. Gofalwch fod pawb a phopeth yn lân wrth gyrraedd ac yn lân wrth adael.
- Rheolwch fermin ar eich fferm.
- Rhowch ddŵr a bwyd glân na all fermin nac anifeiliaid fynd ato.
- Gofalwch eich bod yn gwybod beth yw statws iechyd anifeiliaid newydd ac anifeiliaid sy'n dychwelyd a pheidiwch â gadael iddyn nhw gymysgu ag anifeiliaid eraill.
- Nodwch lle mae'r risg mwyaf ar eich fferm ac ewch i'r afael â hyn yn gyntaf. Er enghraifft, cadwch eich anifeiliaid draw oddi wrth slyri sydd wedi'i wasgaru ar gae a gwaredwch hen wellt ac ati fel na all anifeiliaid gael ato.
- Gofalwch fod siediau ar gyfer y gaeaf wedi'u hawyru'n dda ac yn sych.
- Gofalwch eich bod yn gwybod beth yw amodau'ch trwyddedau symud stoc.
- Parchwch anghenion ffermydd eraill o ran eu bioddiogelu.



Rheolau syml i'w dilyn wrth ynysu eich anifeiliaid

- Cadwch anifeiliaid newydd mewn cwarantin am ryw 2 i 4 wythnos. Gofynnwch i'ch milfeddyg faint yn union o amser sydd ei angen ac am unrhyw brofion neu driniaethau sydd eu hangen.
- Os ydych yn defnyddio adeilad i ynysu eich anifeiliaid, gofalwch ei fod ar wahân i adeiladau eraill sy'n cadw stoc. Bydd angen o leiaf bwlch o 3 metr rhyngddynt.
- Os ydych yn eu cadw mewn cae, gofalwch nad oes modd iddynt ddod i gysylltiad ag anifeiliaid cymdogion a gofalwch fod ganddynt ddŵr glân. Ystyriwch godi ffens ddwbl o'i amgylch.
- Gofalwch nad yw anifeiliaid yn cael ffroeni trwynau anifeiliaid eraill, yn enwedig wrth gatau.

Mae diogelwch da byw Cymru'n dibynnu ar fioddiogelwch da, felly gwnewch eich rhan.

Am fwy o wybodaeth

Ewch i: www.cymru.gov.uk/amgylcheddachedfngwlad

Ebostiwch: animaldiseaseslives@cymru.gsi.gov.uk